# Ffurflen Cyhoeddi Traethodau Ymchwil a Thraethodau Hir Electronig

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

## Manylion y Gwaith

Adneuaf drwy hyn yr eitem ganlynol yn y gadwrfa ddigidol a gynhelir gan y Drindod Dewi Sant, a / neu mewn unrhyw gadwrfa arall y mae gan y Brifysgol awdurdod i'w defnyddio.

Enw'r Awdur: …………………………………………………………………………………………………………………………………………

Teitl y Traethawd Ymchwil: ……………………………………………………………………………………………………………………….

Goruchwyliwr: ……………………………………………………………………………………………………………………………………….

Ysgol: ..........................................................................................................................................

Grant ymchwil (os cafwyd un): .....................................................................................................

Cymhwyster/Gradd a enillwyd: ……………………………………………………………………………………………………………..

Mae'r eitem hon yn ffrwyth fy ymdrechion ymchwil fy hun, ac fe'i trafodir yn y cytundeb isod lle cyfeirir at yr eitem fel "y Gwaith".

## Hawliau Anghyfyngedig

Mae'r hawliau a roddir i'r gadwrfa ddigidol drwy'r cytundeb hwn yn hollol anghyfyngedig. Rwyf yn rhydd i gyhoeddi'r Gwaith yn ei fersiwn presennol neu fersiynau ohono yn y dyfodol mewn mannau eraill.

Cytunaf y gall y Drindod Dewi Sant storio, copïo neu drosi'r Gwaith yn electronig i unrhyw gyfrwng neu fformat cymeradwy at ddibenion cadwraeth a hygyrchedd yn y dyfodol. Nid yw'r Drindod Dewi Sant o dan unrhyw rwymedigaeth i atgynhyrchu neu arddangos y Gwaith yn yr un fformatau neu gydraniadau ag y cafodd ei adneuo'n wreiddiol.

## Cadwrfa Ddigidol y Drindod Dewi Sant

Deallaf y bydd y gwaith a adneuir yn y gadwrfa ddigidol ar gael i amrywiaeth eang o bobl a sefydliadau, gan gynnwys cyfryngau awtomataidd a pheiriannau chwilio trwy gyfrwng y We Fyd-eang.

Unwaith yr adneuir y Gwaith, deallaf y gellir ymgorffori'r eitem a'i meta-data mewn catalogau neu wasanaethau sy'n agored i'r cyhoedd, cronfeydd data cenedlaethol o draethodau ymchwil a thraethodau hir electronig megis EThOS yn y Llyfrgell Brydeinig neu unrhyw wasanaeth a ddarperir gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru.

Deallaf y gellir trefnu bod y Gwaith ar gael drwy Wasanaeth Traethodau Ymchwil Electronig Ar-lein Llyfrgell

Genedlaethol Cymru dan y telerau ac amodau defnyddio a ddatganwyd (dolen neu atodi)[1]. Yn rhan o'r gwasanaeth hwn, cytunaf y gall Llyfrgell Genedlaethol Cymru storio, copïo neu drosi'r Gwaith yn electronig i unrhyw gyfrwng neu fformat cymeradwy at ddibenion cadwraeth a hygyrchedd yn y dyfodol. Nid yw Llyfrgell Genedlaethol Cymru o dan unrhyw rwymedigaeth i atgynhyrchu neu arddangos y Gwaith yn yr un fformatau neu gydraniadau ag y cafodd ei adneuo'n wreiddiol.

## Tynnir sylw'r myfyriwr yn benodol at y cymalau canlynol.

Cytunaf fel a ganlyn:

1. Mai fi yw'r awdur, neu fod gennyf awdurdod yr awdur(on) i lunio'r cytundeb hwn, a thrwy hyn rhoddaf hawl i'r Drindod Dewi Sant drefnu bod y Gwaith ar gael yn y modd a ddisgrifir uchod.
2. Mai'r copi electronig o'r Gwaith a osodwyd yn y gadwrfa ddigidol ac a drafodir yn y cytundeb hwn, yw'r fersiwn terfynol, cywiredig o'r Gwaith, yn amodol ar bwynt 4 isod.
3. Fy mod wedi defnyddio gofal rhesymol er mwyn sicrhau bod y Gwaith yn wreiddiol, a hyd eithaf fy ngwybodaeth, nid yw'n torri unrhyw ddeddfau gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â difenwi, enllib, hawlfraint, diogelu data neu unrhyw hawliau eraill ym maes eiddo deallusol.
4. Fy mod, mewn achosion lle mae eiddo deallusol awduron neu ddeiliaid hawlfraint eraill wedi ei gynnwys yn y Gwaith, wedi cael caniatâd penodol pan fo'n briodol i gynnwys y deunydd hwnnw yn y Gwaith, ac yn fersiwn electronig y Gwaith y gellir mynd ato trwy gadwrfa ddigidol fynediad agored, neu fy mod wedi dynodi ac wedi dileu'r deunydd na chafwyd caniatâd digonol ar ei gyfer.
5. Nad oes unrhyw rwymedigaeth ar Y Drindod Dewi Sant i gymryd camau cyfreithiol ar ran yr Adneuwr, na deiliaid hawliau eraill, os torrir hawliau eiddo deallusol, neu unrhyw hawl arall, mewn perthynas â'r deunydd a adneuir.
6. Y byddaf yn digolledu a pharhau i ddigolledu'r Drindod Dewi Sant a Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn achos unrhyw golled, atebolrwydd, hawliad neu iawndal, gan gynnwys heb gyfyngiad unrhyw ffioedd cyfreithiol a ffioedd llys cysylltiedig (gan eu digolledu'n llawn), sy'n ymwneud ag unrhyw un o delerau'r cytundeb hwn a dorrir gennyf innau.

Llofnod ………………………………………………………….. Dyddiad …………………………………………….

*Atgynhyrchir y testun yn y ffurflen hon gyda chaniatâd Prifysgol Caerdydd.*

[1] https://www.llyfrgell.cymru/am-llgc/hawlfraint/